❖ Pan Ddaeth yr Awr

Ti, O Dduw, yw Creawdwr y bydoedd:
ti a roddaist fflam i'r haul,
llewyrch i'r lloer
a sirioldeb i'r sêr;
ti a greaist ddyn ar dy ddelw
a'i osod ynghanol amrywiaeth y cread,
ei dir a'i fôr,
ei ddydd a'i nos,
ei fryniau a'i ddyffrynnoedd,
ei goed a'i blanhigion,
ei adar a'i anifeiliaid oll.

Er hynny, crwydrodd dyn ymhell oddi wrthyt ti;
ond pan ddaeth yr awr
trefnaist ffordd i'w ddwyn yn ôl:
anfonaist dy Fab dy hun
ar y Nadolig cyntaf
yn faban gwynfydedig;
daeth y Gair bywiol i wisg o gnawd,
daeth tragwyddoldeb i breseb bach,
a daeth Mair yn fam fendigaid
i Geidwad y byd.

Diolchwn i ti am y newyddion da
a lanwodd wacter y byd;
am glod yr angylion
a ddeffrôdd y gân
yng nghalonnau meibion a merched dynion.

Diolch i ti am y bugeiliaid
a ddaeth o dawelwch y meysydd
i bentre Bethlehem
i geisio'r Oen di-fai;
ac am ddoethion a ddaeth o bellter byd
i roi eu rhoddion drud
i Arglwydd pob doethineb.

Cynorthwya ni i ddathlu'r Nadolig hwn
dan gymhelliad yr Ysbryd Glân:
cadw'n llawenydd yn bur,
ac ym mhob rhoi a derbyn
gwna ni'n gyfryngau dy gariad di.

Uwchlaw pob peth
cynorthwya bobloedd y byd
i faddau i'w gilydd
fel yr wyt ti yn maddau i ni,
fel y daw Tywysog Tangnefedd
i'w deyrnas yn ein calonnau oll,
ac fel y byddo gogoniant yn y goruchaf i Dduw
a thangnefedd ar y ddaear
i bawb sy'n ei dderbyn ef.

W. Rhys Nicholas